Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Gwybodaeth reoli mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

MEHEFIN 2009

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithiwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben a chwmpas yr arolwg hwn | 1 |
| **Cefndir** | **2** |
| Cyd-destun | 2 |
| Sail y dystiolaeth yr astudiaeth | 3 |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Tystiolaeth o adroddiadau blynyddol Estyn ar berfformiad gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol er 2004** | **6** |
| Defnydd gwasanaethau ieuenctid o wybodaeth reoli 2004-2005 | 6 |
| Defnydd gwasanaethau ieuenctid o wybodaeth reoli 2005-2006 | 6 |
| Defnydd gwasanaethau ieuenctid o wybodaeth reoli 2006-2007 | 7 |
| Defnydd gwasanaethau ieuenctid o wybodaeth reoli 2007-2008 | 7 |
| **Effeithiau a manteision gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru** | **8** |
| Yr Uned Pobl a Gwaith, Chwefror 2008 – mesur effaith gwasanaethau ieuenctid | 8 |
| **Systemau Gwybodaeth Reoli (SGR) Masnachol a ddefnyddir gan wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol** | **9** |
| Quality education solutions (QES):  gwasanaethau ieuenctid | 9 |
| Cognisoft – Insight and Outreach (IO) | 9 |
| **Atodiad 1:  Arfer gyfredol mewn chwech o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol sampl** | |
| Awdurdod lleol 1 | |
| Awdurdod lleol 2 | |
| Awdurdod lleol 3 | |
| Awdurdod lleol 4 | |
| Awdurdod lleol 5 | |
| Awdurdod lleol 6 | |
| **Atodiad 2:  Mapio defnydd y gwasanaeth ieuenctid o SGR yng Nghymru** | |
| **Geirfa** | |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | |

# Cyflwyniad

## Diben a chwmpas yr arolwg hwn

1 Diben yr arolwg hwn yw:

- darparu papur sefyllfa ar 'Wybodaeth reoli mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol'; ac
- amlygu arfer dda o ran darparu, defnyddio ac effaith y wybodaeth hon.

2 Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn edrych ar:

- y graddau y mae gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn casglu data canlyniad ar y medrau y mae pobl ifanc yn eu dysgu ac yn eu datblygu, gan gynnwys defnyddio achredu cyrff dyfarnu cenedlaethol, a sut y defnyddir y data hwnnw fel rhan o wybodaeth reoli;
- y graddau y mae yna gysylltiadau â rheoli perfformiad a gwella gwasanaethau;
- y trefniadau y mae awdurdodau lleol a phrif swyddogion ieuenctid wedi'u gwneud ar gyfer rheoli gwybodaeth, ar y lefelau y caiff ei chasglu;
- y data canlyniad a nodwyd hyd yn hyn trwy Ddangos Llwyddiant;
- defnyddio data Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer eu dadansoddi; ac
- enghreifftiau o arfer dda sy'n arwain at welliannau gwasanaeth a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed.

# Cefndir

## Cyd-destun

3 Ymestyn Hawliau yw polisi blaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru. Mae hon yn strategaeth gynhwysfawr, tymor hir i wella mynediad pobl ifanc at gymorth, gwasanaethau a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a dinasyddiaeth.

4 Mae'r polisi yn cadarnhau y dylai fod gan wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol rôl gref yn y cyfrifoldeb corfforaethol am arwain, cefnogi a chyflawni'r gwelliant hwn. Mae'r cyfrifoldeb yn cynnwys dod â data at ei gilydd ar ganlyniadau ar gyfer pob person ifanc yn eu hardal, gan gynnwys data ar gyfranogi, iechyd, tai, cyrhaeddiad, troseddu a chamddefnyddio sylweddau.

5 Pan gafodd Ymestyn Hawliau ei ddrafftio, roedd diffyg gwybodaeth fanwl am ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael am faint o bobl ifanc a oedd yn cael eu colli a pham. Roedd y problemau data hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth isel sydd ynghlwm wrth wasanaethau gwaith ieuenctid gan awdurdodau lleol. Er bod bron i ddegawd wedi mynd heibio, roedd Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi 2007-2008 yn parhau i ddod i'r casgliad: "Nad yw partneriaethau yn casglu digon o ddata am bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth ieuenctid. Nid ydynt ychwaith yn arfarnu'r gwahaniaeth a wna'r gwasanaethau i'r bobl ifanc sy'n eu defnyddio."

6 Nid yw'r problemau hyn wedi'i gwneud yn hawdd cynnal yr archwiliad manwl o'r ddarpariaeth sydd ei hangen i bennu graddau'r bylchau neu'r dyblygu ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod y naill a'r llall yn bodoli.

7 Mae'r Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid i Gymru 2007, 'Gwaith ieuenctid, pobl ifanc, Gwasanaeth Ieuenctid', yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau sy'n cyfrannu'n llawn at ddatblygiad pobl ifanc. Yn ogystal â nodi gwerthoedd craidd ar gyfer gwaith ieuenctid, mae hefyd yn amlinellu'r angen i wella monitro ac arfarnu'r effaith. Mae hyn yn cyd-fynd ag Ymestyn Hawliau ac ymateb y Cynulliad i Adroddiad Beecham 2006. Mae'r Strategaeth yn gofyn am gyflwyno systemau sy'n bodloni'r safon genedlaethol ar gyfer meincnodi perfformiad a darpariaeth er mwyn sicrhau a chynnal cyfle cyfartal ar gyfer pobl ifanc.

8 Mae 'Ymchwilio i Effaith a Manteision Gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru' (yr Uned Pobl a Gwaith 2008) hefyd yn argymell olrhain ac arfarnu gwaith ieuenctid yn well.

9 Bwriad menter Dangos Llwyddiant Llywodraeth Cynulliad Cymru yw datblygu ffyrdd o fesur, ymhlith pethau eraill, cyfraniad pwysig y Gwasanaeth Ieuenctid at ddatblygiad pobl ifanc. Mae'n cynnig ystod o ddangosyddion perfformiad y gellid eu defnyddio ar lefelau awdurdod lleol a chenedlaethol i ddangos effaith. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, data ar ganran y bobl ifanc, sy'n teimlo bod eu haddysg yn diwallu eu hanghenion dysgu, pobl ifanc sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn cymryd rhan fel gwirfoddolwyr yn eu cymunedau. Byddai'r mesurau hyn yn darparu tystiolaeth gadarn o effaith polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.

10 Mae'r 'Archwiliad o Wasanaethau Ieuenctid a Gynhelir yng Nghymru', (Asiantaeth Ieuenctid Cymru, 2005) ac uned archwilio data Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) o 2006 hefyd wedi cyfrannu at nodi'r angen am arweiniad wrth ddatblygu systemau fel yr amlinellir uchod. Mae'r nodi hwn yn cyd-fynd â'r heriau ehangach a osodwyd gan y Cynulliad ar gyfer y rheiny sy'n cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn 'Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni Ar Draws Ffiniau: Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, 2006'.

## Sail y dystiolaeth yr astudiaeth

11 Yn ystod yr astudiaeth, fe wnaeth arolygwyr gyfarfod neu siarad â phrif swyddogion ieuenctid, swyddogion awdurdodau lleol a gweithwyr ieuenctid. Fe wnaethant gasglu a dadansoddi gwybodaeth am arfer bresennol wrth gasglu, rheoli, dadansoddi a defnyddio data. Fe wnaethant hefyd adolygu adroddiadau arolygu gwasanaethau cymorth ieuenctid yn ogystal ag adroddiadau blynyddol ar berfformiad gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol.

## Prif ganfyddiadau

12 Nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn defnyddio systemau gwybodaeth reoli (SGR) trylwyr. Mae hyn yn golygu bod y cynllunio ar bob lefel yn cael ei rwystro gan y diffyg gwybodaeth. Yn ychwanegol, dim ond arfarniad cyfyngedig a geir o ba mor effeithiol yw'r gwasanaeth ieuenctid wrth ddiwallu anghenion pobl ifanc.

13 Prin yw'r arfer gyffredin wrth ddefnyddio SGR ledled Cymru, er bod defnydd cynyddol yn cael ei wneud o ddwy system sydd ar gael yn fasnachol, sef 'Quality Education Solutions Youth Services' a 'Cognisoft Insight and Outreach'.

14 Er bod rhywfaint o gynnydd i'w weld mewn casglu data rheoli gan wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yng Nghymru, dim ond defnydd cyfyngedig a wnaed o hyn.

15 Nid yw'r data ar ganlyniadau ar gyfer pobl ifanc wedi cael eu datblygu'n llawn, a defnydd cyfyngedig a wnaed o ddata i lywio cynllunio a gwella gwasanaethau yn fwy effeithiol.

16 Ym mhob awdurdod lleol lle'r oedd gwasanaethau cymorth ieuenctid wedi cael eu harolygu, roedd gwasanaethau ieuenctid yr awdurdod lleol wedi cynnal o leiaf un hunanarfarniad. Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hunanarfarnu wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol a blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau yn canolbwyntio gormod ar ddisgrifiadau o'r gweithgareddau a gynigir, yn hytrach nag arfarnu eu hansawdd neu'u canlyniadau.

17 Mae nifer fach o eithriadau i'r darlun hwn sy'n gyffredinol negyddol. Mae gwaith rhagorol un gwasanaeth ieuenctid, er enghraifft, yn destun yr un systemau rheoli perfformiad llym, gan gynnwys casglu a dadansoddi data i lywio gwella gwasanaeth, â gweddill darpariaeth yr awdurdod lleol.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 sicrhau bod holl wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn defnyddio SGR cyson neu un set o safonau cytûn y maent i gyd yn adrodd yn ei herbyn.

**Dylai gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol:**

A2 ddatblygu systemau gwybodaeth reoli effeithiol i gasglu data ar gyfraddau dechrau, cyrhaeddiad, tynnu'n ôl a chynnydd pobl ifanc mewn addysg ffurfiol ac addysg nad yw'n ffurfiol;

A3 datblygu ymhellach y systemau ar gyfer mesur datblygiad personol pobl ifanc;

A4 gwella'r drefn o gasglu a dadansoddi data a gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys data a gwybodaeth sy'n ymwneud â chynhwysiad cymdeithasol;

A5 defnyddio'r wybodaeth reoli a gasglwyd i arfarnu canlyniadau ar gyfer pobl ifanc, ac effaith arfer gwasanaeth ieuenctid arnynt;

A6 defnyddio'r wybodaeth reoli a gasglwyd i wella cynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion pobl ifanc; a

A7 defnyddio'r wybodaeth reoli a gasglwyd i lywio'r penderfyniadau a wna aelodau etholedig.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A8 ddadansoddi'r data sydd ar gael sy'n ymwneud â chynhwysiad cymdeithasol er mwyn nodi heriau lleol ac atebion lleol; a

A9 chefnogi cyflwyno'r defnydd effeithiol o SGR i asiantaethau partner sy'n cyfrannu at wasanaethau cymorth ieuenctid lleol.

## Tystiolaeth o adroddiadau blynyddol Estyn ar berfformiad gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol er 2004

18 Cymerwyd yr enghreifftiau canlynol o wasanaethau cymorth ieuenctid awdurdodau lleol ym mhob blwyddyn adrodd. Caiff pedwar arolygiad eu cwblhau bob blwyddyn ar gyfartaledd.

### Defnydd gwasanaethau ieuenctid o wybodaeth reoli 2004-2005

19 Prin oedd y dystiolaeth o reolwyr yn canolbwyntio ar arfarnu a gwella ansawdd yn y cyfnod hwn. Nid oedd hunanasesu wedi cael ei ymgorffori eto yn niwylliant gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol. O ganlyniad, nid oedd y gwasanaethau yn gallu nodi arfer wael a gwneud ymyriadau priodol.

20 Nid oedd gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol yn nodi ac yn defnyddio data i ddangos yr hyn a oedd yn gweithio a'r hyn nad oedd yn gweithio. Ni fu unrhyw newidiadau mewn strategaethau cyllid traddodiadol neu benawdau cyllideb ac roedd diffyg tystiolaeth o flaenoriaethu.

21 Nid oedd y rhan fwyaf o wasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol yn gallu nodi'n effeithiol yr hyn a oedd yn gweithio'n dda a'r hyn nad oedd yn gweithio'n dda. Roedd hyn yn eu hatal rhag adolygu'r ffordd orau o gynllunio ac ariannu gwelliannau i wasanaethau. Nid oedd digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r data oedd ar gael i nodi cryfderau a gwendidau ar lefelau gweithredol. Roedd angen cynllunio ar gyfer gwella.

### Defnydd gwasanaethau ieuenctid o wybodaeth reoli 2005-2006

22 Yn yr un modd, nid oedd digon o ffocws ar arfarnu a gwella ansawdd yn y cyfnod hwn. O ganlyniad, nid oedd gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn aml yn gallu nodi arfer wael a gwneud ymyriadau priodol. Roedd dealltwriaeth gynyddol o'r angen am wella gwasanaethau. Dim ond hanner yr awdurdodau yr ymwelwyd â nhw oedd yn dangos ymrwymiad i ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd hunanasesu wedi cael ei ymgorffori mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol eto er bod un gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol wedi datblygu prosesau hunanasesu rheolaidd a llawlyfr ansawdd.

23 Roedd diffyg profiad, ac mewn rhai achosion, diffyg arbenigedd ymhlith rheolwyr canol mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol. Roedd hyn yn golygu nad oedd rheolwyr bob amser yn cyflawni eu nodau. Roedd y rhain yn cynnwys cynllunio strategol, gwneud penderfyniadau, rheoli perfformiad, dylanwadu ar wneud penderfyniadau yn yr awdurdod lleol, sicrhau ansawdd a monitro canlyniadau ar gyfer pobl ifanc.

24 Nid oedd gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol yn nodi ac yn defnyddio tystiolaeth yn seiliedig ar ddata i ddangos yr hyn a oedd yn gweithio a'r hyn nad oedd yn gweithio.

**Defnydd gwasanaethau ieuenctid o wybodaeth reoli 2006-2007**

25 Erbyn hyn, roedd holl wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a arolygwyd wedi cynnal o leiaf un hunanasesiad. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau hunanasesu wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol a blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella. Fodd bynnag, roedd yr adroddiadau yn canolbwyntio gormod ar ddisgrifiadau o'r gweithgareddau a gynigir, yn hytrach nag arfarnu ansawdd y rhain. Yn aml, nid oedd unrhyw ffocws ar ganlyniadau wrth gynllunio.

26 Nid oedd y rhan fwyaf o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn defnyddio systemau gwybodaeth reoli trylwyr. Roedd hyn yn golygu na allai rheolwyr ddatblygu eu gwasanaethau yn seiliedig ar ddata rheoli cywir a thystiolaeth o angen.

27 Roedd cynllunio ar bob lefel yn cael ei rwystro gan ddiffyg gwybodaeth reoli drylwyr ac yn aml, dim ond arfarniad cyfyngedig a gafwyd o ba mor effeithiol yr oedd y gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol wrth ddiwallu anghenion pobl ifanc.

**Defnydd gwasanaethau ieuenctid o wybodaeth reoli 2007-2008**

28 Yn ddiweddar, bu rhywfaint o gynnydd mewn casglu data rheoli gan y gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, er mai dim ond defnydd cyfyngedig a wnaed o'r data hyn. Nid yw'r data ar ganlyniadau ar gyfer pobl ifanc wedi cael eu datblygu'n llawn. Allbynnau meintiol yn gyffredinol yw ffocws y casglu data. Mae'r dadansoddi yn aml wedi'i gyfyngu i ddisgrifiad yn hytrach na mesur ansawdd, effaith a pherfformiad gwasanaeth.

29 Mae un eithriad amlwg i'r darlun cyffredinol hwn. Mae gwaith rhagorol un gwasanaeth ieuenctid yn destun yr un systemau rheoli perfformiad llym, gan gynnwys casglu a dadansoddi data fel gweddill darpariaeth yr awdurdod lleol. Mae arfer dda mewn sicrhau ansawdd, casglu a dadansoddi data. Mae rheolwyr yn gwneud defnydd da o'u gwybodaeth reoli fanwl.

## Effeithiau a manteision gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru

### Yr Uned Pobl a Gwaith, Chwefror 2008 – mesur effaith gwasanaethau ieuenctid

30 Mae'r Strategaeth Genedlaethol Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer Cymru yn awgrymu ystod o fesurau a fydd, gyda'i gilydd, yn llywio'r arfarniad o'r cyfraniad a wna gwasanaethau ieuenctid at yr effaith ar bobl ifanc. Mae awgrymiadau ar gyfer mesur yn cynnwys:

- cyflawniad personol;
- newidiadau mewn cymhwysedd emosiynol;
- canlyniadau fel cymwysterau, dechrau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, neu ddod yn ddinesydd gwell; a
- mewnbynnau fel adnoddau, amser staff, mathau o weithgareddau a chyfraddau cyfranogi.

31 Nid yw mesur cynnydd wrth ddatblygu medrau meddal yn wyddonol. Mae asesu gwrthrychol wedi'i gymylu gan wrthrychedd a materion ymarferol. Mae'n anodd sefydlu cysylltiadau achosol rhwng gwaith ieuenctid a chanlyniadau cyfatebol ar gyfer pobl ifanc.

32 Mae angen i dystiolaeth ddibynadwy o newid ymddygiadol gael ei chofnodi gan weithwyr ieuenctid sydd wedi'u cyfyngu o ran yr amser sydd ganddynt a'r hyfforddiant a gawsant i feistroli systemau soffistigedig.

33 Gellir gwneud cymariaethau defnyddiol gyda'r astudiaeth gyfochrog, 'Education and Youth Services in England' (Ofsted 2005) lle amlygir gwahaniaeth rhwng newidiadau sylfaenol mewn agweddau ac ymddygiad a newidiadau dilynol mewn sefyllfa, fel cael swydd. Gellir gweld bod gwerth i'r un blaenorol, ond nid ydynt yn sicrhau newid. Gellir ond nodi effaith mewn gwirionedd gan ganlyniadau cadarn fel cyrhaeddiad a chyflawniad gwell, gostyngiad yn niferoedd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), presenoldeb gwell yn yr ysgol, gostyngiad mewn cyfraddau gwahardd, llai o gyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol a gostyngiad mewn ystadegau aflonyddu pobl ifanc a throseddau gan bobl ifanc.

## Systemau Gwybodaeth Reoli (SGR) Masnachol a ddefnyddir gan wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol

### Quality education solutions (QES): gwasanaethau ieuenctid

34 Cynlluniwyd Quality Education Service (QES) Youth Service gan weithwyr ieuenctid i gefnogi cynllunio, cyflwyno ac arfarnu eu gwaith yn Lloegr. Mae'r system yn galluogi gwasanaethau i reoli cynllunio prosiectau a sesiynau tra'n dal cofnodion presenoldeb wrth i waith gael ei gyflwyno. Mae prosesau cynllunio yn croesgyfeirio â dogfen bolisi Lloegr 'Mae Pob Plentyn yn Cyfrif' (Every Child Matters) ac unrhyw fframweithiau cwricwlwm lleol. Gellir cofnodi effaith gwaith trwy brosesau arfarnu a thrwy gofnodi canlyniadau a gyflawnir gan bobl ifanc.

35 Mae'r system yn casglu gwybodaeth ac mae'n gallu adrodd mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn dangos perfformiad. Gall hefyd gynhyrchu data ar gyfer monitro rheolaidd neu ddarparu gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau rheoli strategol. Mae'r system ar y we ac mae wedi'i chynllunio i allu cyfnewid data gyda systemau eraill.

### Cognisoft – Insight and Outreach (IO)

36 Mae'r gronfa ddata hon ar y we yn helpu cael gwybodaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar gyflwyno gwasanaethau. Mae'n gyfrwng gweithredol ar gyfer gweithwyr ieuenctid, sy'n eu galluogi i gwblhau ffeiliau ar-lein. Mae'r manylion personol, yr asesiadau, y cynlluniau datblygu unigol, y canlyniadau cyfranogiad a'r canlyniadau caled a meddal wedi'u dynodi yn unol â hawliau Cymru. Mae'r ffeiliau yn helpu cynllunio a chyflwyno gwasanaethau gyda ffurflenni ystadegol a gwybodaeth reoli yn cael ei chynhyrchu o olrhain o ddydd i ddydd.

37 Mae'r system yn ymdrin â'r holl weithgareddau gwasanaethau ieuenctid ac yn sicrhau bod gwybodaeth allweddol ar gael yn hawdd. Mae angen cofnod data ar y system, mae'n cynhyrchu ffurflenni ystadegol a gwybodaeth ar gyfer timau rheoli a chyrff ariannu, gan helpu staff rheng flaen i flaenoriaethu eu gwaith.

38 Pan fydd y data wedi cael eu casglu, gellir eu rhannu gydag unrhyw gronfa ddata. Mae hyn yn galluogi cyflwyno gwasanaethau ar y cyd. Gall cynlluniau gweithredu, nodiadau a thystiolaeth electronig i gyd gael eu cofnodi gan weithwyr ieuenctid i greu darlun llawn o'r holl ymyriadau.

## Atodiad 1: Arfer gyfredol mewn chwech o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol sampl

### Awdurdod lleol 1

### Cefndir

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid berthynas waith agos gyda QES a gall wneud defnydd helaeth o'r SGR hon ar gyfer cynllunio, cofnodi ac arfarnu ei waith. Disodlodd systemau papur a gyflwynwyd ar ôl beirniadiaeth ynghylch diffyg tystiolaeth gyson i gefnogi arfarniad o waith y gwasanaeth.

Mae manteision defnyddio QES yn effeithiol yn awr yn cael eu cydnabod gan wasanaethau cymorth ieuenctid eraill yn yr ardal ac mae arfer reoli yn cael ei dylanwadu'n gadarnhaol. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn ddeiliad trwydded gyda QES ac fe gaiff is-drwyddedu i asiantaethau partner. Mae pedwar prosiect yn y sector gwirfoddol sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu ar y cyd trwy Cymorth neu gyllideb y gwasanaeth ieuenctid wedi'u cofrestru gyda QES erbyn hyn. Mae wedi cael ei gynnig am ddim i bartneriaid. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys y cymorth hyfforddi sydd ei angen ar gyfer gweithredu llwyddiannus. Mae'r Clwb Ffermwyr Ifanc eisoes wedi manteisio ar y cynnig hwn.

Caiff data perthnasol eu ffeilio yn ôl mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau. Gellir cael mynediad at y system ar-lein. Mae'n gyfrinachol gyda mynediad a diogelwch cyfyngedig wedi'u diffinio gan bob grŵp defnyddiwr.

Caiff gwybodaeth ei chofnodi trwy hafan lleoliad ac wedyn i brosiect neu sesiwn benodol. Mae'r wybodaeth a gofnodir yn cynnwys staffio, presenoldeb, cyflwyno'r cwricwlwm, achredu a thystiolaeth o ddatblygiad personol pobl ifanc, er enghraifft, y meini prawf Dangos Llwyddiant. Gellir sicrhau dadansoddiad o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth neu aelod o staff, neu ar ffurf adroddiad yn Word neu Excel. Caiff cyfeiriadau gan Gyrfa Cymru eu cofnodi'n awtomatig a gellir cysylltu â gronfa ddata genedlaethol ar ddisgyblion.

Mae manteision i'r gwasanaeth ieuenctid yn cynnwys y gwelliant yn ansawdd cynllunio gweithredu'r gwasanaeth ac mewn rheoli perfformiad. Gyda mynediad at ddata QES, ceir tystiolaeth glir o arfer effeithiol ac aneffeithiol. O ganlyniad, mae ansawdd y goruchwylio proffesiynol wedi gwella. Caiff arfer dda ei dathlu a'i rhannu ac fe gaiff gwaith sy'n cael ychydig o effaith os o gwbl ei nodi a'i herio.

### Y gwersi a ddysgwyd

Prin oedd y ddealltwriaeth o gapasiti neu berthnasedd SGR cyn gweithredu QES.

Roedd angen amser i sefydlu er mwyn cyfateb y system i amgylchiadau lleol a chaniatáu ar gyfer mewnbynnu camgymeriadau cynnar i gael eu cywiro.

Ni ellir cyflawni unrhyw ganlyniadau cynnar na chyflym. Rhaid rhoi amser i gasglu digon o ddata cyn y gellir gwneud dadansoddiad ystyrlon.

Rhaid gosod targedau realistig ar gyfer hyfforddi ac ar gyfer gweithredu.

Mae angen cyfrinachedd TGCh ynghyd â dealltwriaeth o gyd-destun a diben gwaith ieuenctid i arwain gweithredu'r SGR.  Yn ychwanegol, mae angen i uwch reolwyr ddeall a chefnogi pwysigrwydd strategol y datblygiad hwn.

Mae cysondeb mewn gweithredu ar draws y gwasanaeth yn hanfodol.  Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cynnal hyfforddiant os yw gwasanaeth am elwa'n llawn ar SGR.

**Barnau**

Nodweddion da:

- caiff y gronfa ddata ei defnyddio gan staff i gynllunio ac arfarnu eu gwaith yn effeithiol;
- mae'r gronfa ddata yn helpu gwneud cyfarfodydd goruchwylio gyda staff ar bob lefel yn bwrpasol, gyda ffocws ar wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc;
- defnyddir data yn rheolaidd er mwyn monitro targedau unigol a chynllun busnes;
- mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd da o'r gronfa ddata ar gyfer sicrhau ansawdd, cynllunio'r cwricwlwm ac i fonitro canlyniadau ar gyfer pobl ifanc;
- caiff y defnydd o SGR ei ymgorffori'n dda ac mae datblygiadau pellach yn parhau;
- mae rheolwyr yn monitro data yn dda er mwyn cydymffurfio â phrotocolau chynllunio busnes a phrotocolau archwilio; ac
- mae'r gwasanaeth yn arwain defnydd effeithiol o SGR gan bartneriaid lleol a rhanbarthol.

Diffygion:

- ni nodwyd unrhyw ddiffygion yn yr enghraifft hon o arfer dda iawn.

## Awdurdod lleol 2

**Cefndir**

Datblygodd y gwasanaeth ieuenctid system bapur gynhwysfawr i gofnodi gwybodaeth reoli dros nifer o flynyddoedd.

Fe wnaeth cymorth corfforaethol alluogi i'r system hon gael ei throsglwyddo i system ar-lein er mwyn gallu rheoli a dadansoddi data yn fwy effeithiol.

Yn dilyn ymgynghori â staff, cytunwyd bod yn rhaid i'r SGR fasnachol ar gyfer y gwasanaeth fod yn hawdd ei defnyddio, yn gost effeithiol, yn ddiogel, bod ganddi'r capasiti i olrhain unigolion a bod yn ymatebol i'r cwricwlwm gwaith ieuenctid.  Roedd staff hefyd eisiau i'r system helpu rhannu arfer dda.

Rhoddwyd system ar-lein Cognisoft ar waith a chaiff ei defnyddio i adolygu cyfranogiad unigol, cynnydd, achredu, cwmpasu'r cwricwlwm, perfformiad staff ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Bu symud amlwg o weithgarwch clwb ieuenctid cyffredinol i waith ieuenctid sy'n seiliedig ar brosiect o ganlyniad i sail y dystiolaeth yn llywio arfarnu gwasanaethau.

Mae pob un o'r staff yn y gwasanaeth a rhai asiantaethau partner yn y sector gwirfoddol yn defnyddio'r gronfa ddata ar gyfer cofnodi ac adrodd.

**Y gwersi a ddysgwyd**

Rhaid i'r system fod yn hyblyg a bod modd ei haddasu wrth i'r gofynion adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau allanol newid.

Mae arbenigedd TGCh a mynediad at gymorth arbenigol ychwanegol yn hanfodol er mwyn gwneud y gorau o fanteision y SGR.

Rhaid nodi capasiti hyfforddiant mewnol er mwyn sicrhau bod pob un o'r staff yn defnyddio'r system yn effeithiol.

Mae system ar y rhyngrwyd yn caniatáu mynediad o unrhyw gyfrifiadur ar-lein.

Wrth i bartneriaid gymryd rhan, mae'n bwysig cytuno ar iaith a diffiniadau cyffredin er mwyn i adroddiadau gynnwys yr holl ddata perthnasol.

Mae defnyddio'r SGR wedi helpu cefnogi cydnabyddiaeth broffesiynol o werth gwaith ieuenctid yn yr awdurdod lleol a thargedu datblygiad proffesiynol ei staff.

**Barnau**

Nodweddion da:

- mae gweithwyr ieuenctid yn defnyddio'r system yn systematig i adrodd gwybodaeth feintiol ac ansoddol fel ei gilydd er mwyn olrhain datblygiad pobl ifanc yn effeithlon;
- mae defnyddio'r system i lywio rheoli perfformiad wedi'i ymgorffori'n dda;
- ceir enghreifftiau da o ailfodelu'r gwasanaeth ar sail arfarniadau sy'n cael eu llywio gan ddadansoddi'r gronfa ddata a llunio adroddiadau; ac
- mae'r gronfa ddata wedi helpu sicrhau adnoddau ychwanegol o ystod o ffynonellau.

Diffygion:

- ni ellir rheoli newid gofynion data a gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar fyr rybudd; ac
- mae mewnbynnu data yn broses lafurus.

## Awdurdod lleol 3

## Cefndir

Roedd y gwasanaeth ieuenctid wedi datblygu a defnyddio ei gronfa ddata fewnol ei hun ar gyfer cael ystod o wybodaeth am waith ieuenctid dros y tair blynedd diwethaf. Yn ddiweddar, penderfynodd y gwasanaeth fuddsoddi yng nghronfa ddata QES, ar ôl i gyllid cyfalaf ddod ar gael ac yn sgil colli cymorth technegol yn y gyfarwyddiaeth.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a QES yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r system. Er enghraifft, mae QES wedi cytuno i addasu'r system er mwyn peidio â cholli data defnyddiol sydd eisoes wedi'u casglu.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio ei gronfa ddata ar gyfer:

- cofnodi canlyniadau, gan gynnwys achredu a meini prawf eraill fel rheolaeth ariannol, medrau rhyngbersonol a mwynhau;
- olrhain cyfranogiad pobl ifanc;
- cynllunio'r cwricwlwm yn erbyn pump o ardaloedd cwricwlwm lleol, y cwricwlwm cenedlaethol a'r hawliau. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â chalendr cynllunio, sy'n galluogi gweithwyr ieuenctid a rheolwyr i weld bylchau;
- rheoli a hyfforddi staff; ac
- adrodd a darparu tystiolaeth ar gyfer aelodau etholedig, cyrff ariannu ac eraill.

## Y gwersi a ddysgwyd

Er mwyn i SGR fewnol fod yn effeithiol, rhaid cael cymorth o ansawdd da gan swyddogion technegol. Heb y cymorth hwnnw, mae angen buddsoddi mewn pecyn masnachol fel QES.

Mae gan y gronfa ddata y potensial i fod yn gyfrwng effeithiol i staff olrhain cyfranogiad a chynnydd ar gyfer pobl ifanc, yn ogystal â rheoli, arfarnu a gwella darpariaeth y gwasanaeth.

Mae angen datblygu isadeiledd TGCh y gwasanaeth ieuenctid er mwyn i bob gweithiwr ieuenctid a rheolwr allu cael mynediad at y gronfa ddata ar-lein.

## Barnau

Nodweddion da:

- mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r system yn dda mewn cyfarfodydd goruchwylio pan fydd staff yn trafod data mewn perthynas â thargedau unigol a chynllun busnes;
- defnyddir y gronfa ddata yn effeithiol i fonitro cyflawniadau pobl, cael gwybodaeth am ddiogelu ac ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm; ac

- mae staff wedi ymrwymo i’r system gan ei bod eisoes yn darparu tystiolaeth i lywio gwella gwasanaethau.

Diffygion:

- mae’r gronfa ddata yn dibynnu ar ddefnyddwyr yn cael mynediad da at y rhyngrwyd; ac

- nid oes rhyngwyneb Cymraeg.

## Awdurdod lleol 4

### Cefndir

Mae’r gwasanaeth ieuenctid wedi comisiynu cronfa ddata o QES ar gyfer cael ystod o wybodaeth am waith ieuenctid.

Gellir cofnodi gwybodaeth am:

- gynllunio prosiectau a rhaglenni;

- cyfranogi; a

- chanlyniadau ar gyfer pobl ifanc, wedi’u mapio yn erbyn y cwricwlwm gwaith ieuenctid ar gyfer Cymru.

Mae pob un o’r staff yn y gwasanaeth yn defnyddio’r gronfa ddata ar gyfer cofnodi ac adrodd.

### Y gwersi a ddysgwyd

Mae’r gwasanaeth wedi bod yn defnyddio’r gronfa ddata am dair blynedd.  Bu’n rhaid iddo ymdrin â nifer o faterion gan gynnwys:

- diffyg isadeiledd TGCh ac arbenigedd staff;

- yr amser a gymerir i fewnbynnu data;

- y cyfleuster cyfyngedig ar gyfer adrodd am y prif ddata yn y system; a

- chost.  Mae hyn yn cynnwys ffi o £25,000 ar gyfer dechrau, £3,500 o danysgrifiad blynyddol a £5,000 am gyfleuster adrodd ychwanegol.

Soniodd rheolwyr am rywfaint o rwystredigaeth gyda gweithredu’r gronfa ddata oherwydd y cywreinio a oedd yn angenrheidiol cyn iddi ddiwallu eu hanghenion.

Mae cofnodi data â llaw yn aneffeithlon, a defnyddir darllenyddion codau bar mewn clybiau anghysbell er mwyn galluogi staff rhan-amser yn benodol i ddefnyddio’r gronfa ddata.

## Barnau

Nodweddion da: mae'r gronfa ddata yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer:

- monitro sut gall pobl ifanc gael canmoliaeth a chydnabyddiaeth am eu cyflawniadau;
- adrodd ar ganlyniadau;
- adrodd dangosyddion perfformiad allweddol; a
- chefnogi staff i reoli a myfyrio ar eu gwaith.

Diffygion:

- mae'r gronfa ddata yn dibynnu ar gael mynediad da at y rhyngrwyd;
- nid oes unrhyw ryngwyneb Cymraeg; ac
- mae angen i staff ymweld â'r swyddfa ganolog o hyd i lawrlwytho data o ddarllenyddion codau bar i'r gronfa ddata.

## Awdurdod lleol 5

## Cefndir

Defnyddir trefn o gasglu data â llaw i olrhain presenoldeb ac ymglymiad er mwyn ymateb i gasgliadau data CLILC a LICC. Mae ymateb i'r gofynion hyn wedi bod yn her gymhleth.

Gwnaed ymdrechion i gofnodi a rheoli data a dadansoddi'r data hynny i wella perfformiad ac effeithiolrwydd. Caiff arferion sicrhau ansawdd eu hymgorffori ac maent wedi amlygu'r angen am ddata gwell.

Mae'r awdurdod lleol yn ymdrechu i greu diwylliant busnes soffistigedig ac mae'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr eisiau i wasanaethau ganolbwyntio ar wneud defnydd effeithlon o wybodaeth reoli i arfarnu effaith ac ysgogi gwella gwasanaethau.

Ar hyn o bryd, mae gan bob un o'r swyddogion rywfaint o gyfrifoldeb am fewnbynnu data ond mae capasiti corfforaethol yn dechrau cael ei ddefnyddio. Bydd cronfa ddata'r QES yn cael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2009 ar ôl hyfforddiant ac arbrofi.

Mae staff eisiau datblygu setiau data craidd a chynnwys olrhain datblygiad personol pobl ifanc. Maent wedi arbrofi â systemau ar-lein a systemau papur ar gyfer casglu'r data hyn.

Mae QES yn gweithio i ymateb i'r anghenion ychwanegol a nodwyd eisoes er mwyn bodloni gofynion lleol a chenedlaethol.

## Y gwersi a ddysgwyd

Mae gwybodaeth reoli bresennol yn ymwneud â phrosiectau ac arfer unigol yn unig.

Mae angen uwchraddio'r isadeiledd TGCh i gynnwys cynorthwywyr digidol personol a darllenyddion codau bar.

Mae gweithredu strwythuredig yn hanfodol, gan gynnwys ymgynghori a hyfforddi cyn y lansio er mwyn sicrhau arfer gyffredin.

Ni ellir rhuthro'r datblygiad hwn oherwydd bod gweithredu yn digwydd ar adeg o gynnydd cyflym ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Bydd dealltwriaeth dda o arfer rheoli newid yn helpu cyflawni llwyddiant.

Mae defnydd gwell o wybodaeth reoli yn helpu codi statws proffesiynol gwaith ieuenctid yn yr awdurdod lleol.

**Barnau**

Nodweddion da:

- nid yw casglu gwybodaeth reoli yn newydd i weithwyr ieuenctid a rheolwyr;
- mae cynlluniau gweithredu yn strwythuredig ac yn systematig; ac
- fe gaiff sicrhau ansawdd ei ymgorffori, yn yr un modd â gwella gwasanaethau ar sail yr arfarniadau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth.

Diffygion:

- hyd nes bod mynediad at TGCh yn gyson, bydd data yn parhau i gael eu cofnodi ar bapur ac ar-lein;
- mae angen mynd i'r afael o hyd â'r broblem o gael mynediad ar gyfer siaradwyr Cymraeg; ac
- er bod cynlluniau yn glir ar gyfer y gweithredu, mae'n rhy gynnar o hyd i farnu effaith mabwysiadu QES.

## Awdurdod lleol 6

**Cefndir**

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod yn araf yn gwella ei broses o gasglu data trwy weithredu SGR yn y gorffennol. Mae rheoli perfformiad a chynllunio ar gyfer datblygu'r gwasanaeth wedi mynd rhagddo heb wybodaeth ategol hanfodol. Mae tystiolaeth o newid mewn nifer o feysydd erbyn hyn.

Mae'r SGR a ddefnyddir ar hyn o bryd yn cynnwys:

- system Maytas (gweler yr eirfa), sy'n cefnogi addysg oedolion, dysgu yn y gwaith a'r gwasanaeth ieuenctid;
- cronfeydd data a thaenlenni wedi'u cynllunio gan swyddogion a ddefnyddir i gofnodi gweithgareddau;

- proffiliau ardal lle defnyddir tueddiadau ar gyrhaeddiad, presenoldeb ysgolion, yr holl waharddiadau, cyfeiriadau at wwasanaethau cymdeithasol, aflonyddu pobl ifanc, beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau a throsedd i asesu effaith y ddarpariaeth; a

- system gwybodaeth reoli ysgolion (SIMS).

Mae'r Tîm ar Wahân yn defnyddio system bapur i gasglu gwybodaeth am gynhwysiad, iechyd, lles a datblygiad personol. Caiff maint cyfyngedig o wybodaeth reoli ei throsglwyddo â llaw i system Maytas. Nid oes cyfleuster ar gyfer dadansoddi ac nid yw'n gallu cyflwyno data ar dueddiadau. Defnyddir y wybodaeth feintiol a gofnodwyd i gefnogi arfarnu effaith ac effeithiolrwydd staff a threfniadau staffio.

Defnyddir data cyfredol o ymgynghori â phobl ifanc ac o ffigurau presenoldeb i ddarparu tystiolaeth ar gyfer arfarniad y Cyngor a datblygu gweithgarwch y tu allan i oriau ysgol ar gyfer pobl ifanc. Nid yw'r data yn ymwneud ag unigolion ac nid yw'n caniatáu cysylltedd da â data cod post neu SIMS. Mae'r awdurdod wedi bod yn gweithio gyda darparwyr masnachol sydd ar hyn o bryd yn cefnogi gwahanol agweddau ar SGR awdurdodau lleol i nodi ffordd ymlaen a fyddai hefyd yn diwallu anghenion SGR gwasanaethau ieuenctid.

## Y gwersi a ddysgwyd

Dylai'r gwasanaeth ieuenctid ddadansoddi ei ddata yn erbyn data cod post, presenoldeb ysgolion, data cyffuriau ac alcohol. Fodd bynnag, byddai angen mabwysiadu Cognisoft neu QES ar gyfer hynny. Nid yw swyddogion yn hyderus eu bod yn gallu gwneud dewis gwybodus neu y gellid bodloni costau.

Byddai system gyffredinol sy'n hyblyg ac yn drylwyr yn helpu olrhain datblygiad pobl ifanc, rheoli staff a gwella gwasanaethau.

Yn y cyfamser, byddai defnyddio cynorthwywyr digidol personol (PDA) a darllenyddion codau bar yn lleihau'r baich gweinyddol o drosglwyddo data i SGR Maytas.

## Barnau

Nodweddion da:

- ceir tystiolaeth o ddatblygu ffocws ar ddefnyddio data perthnasol i gefnogi rheoli perfformiad a datblygu gwasanaethau;

- caiff gwybodaeth feintiol ei chofnodi ar systemau a'i defnyddio i lywio arfarniad o effaith ac effeithiolrwydd trefniadau staff a staffio mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth; ac

- mae ymgynghori â phobl ifanc wedi cynhyrchu data sydd, ynghyd â data meintiol, wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu'r gwasanaeth.

Diffygion:

- mae angen rhesymoli'r defnydd o SGR;
- mae gwybodaeth reoli bresennol yn feintiol ond nid yn ansoddol;
- nid oes unrhyw gyfleuster ar gyfer dadansoddi nac ar gyfer cyflwyno data ar dueddiadau;
- nid yw data cyfredol yn ymwneud ag unigolion ac nid yw'n caniatáu cysylltedd da â data cod post neu system gwybodaeth reoli ysgolion Capita (SIMS); ac
- mae systemau papur yn anymarferol mewn lleoliadau ar wahân.

## Atodiad 2: Mapio defnydd y gwasanaeth ieuenctid o SGR yng Nghymru yn 2008

**Gwaith a gwblhawyd gan Tim Opie, CLlLC**

| Awdurdod lleol | System a ddefnyddir | Nodiadau |
|---|---|---|
| Abertawe | Cognisoft | |
| Blaenau Gwent | Mewnol – SNAP | Dadansoddi holiadur – gellir allforio data i becynnau Microsoft |
| Bro Morgannwg | Dim | Yn ystyried cynnig am gyfalaf LlCC |
| Caerdydd | Cognisoft | Cyflwyno ym mis Mawrth 2009 |
| Caerffili | Dim | Cyflwynwyd cynnig am gyllid cyfalaf LlCC ar gyfer QES |
| Casnewydd | Cognisoft | |
| Castell-nedd Port Talbot | Cognisoft | Arbrofi ond hefyd yn defnyddio system bapur |
| Ceredigion | Mewnol | Cyflwynwyd cynnig am gyllid cyfalaf LlCC ar gyfer QES |
| Conwy | QES | |
| Gwynedd | Mewnol | |
| Merthyr Tudful | QES | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | QES | |
| Powys | Mewnol | Cytunwyd ar gontract yn ddiweddar i symud data i QES |
| Rhondda Cynon Taf | MAYTAS | System Addysg Oedolion ac Ieuenctid ar y cyd |
| Sir Benfro | QES | Fe'i defnyddir ar draws y gwasanaeth cyfan, cyflwyno i'r sector gwirfoddol |
| Sir Ddinbych | Mewnol | |
| Sir Fynwy | Dim | |
| Sir Gaerfyrddin | QES | |
| Sir y Fflint | QES | |
| Torfaen | Dim | |
| Wrecsam | Dim | Yn ystyried cynnig am gyfalaf LlCC |
| Ynys Môn | Dim | Defnyddir system fewnol sylfaenol ar gyfer data sylfaenol |

## Geirfa

**Adroddiad Beecham 2006** – Adolygiad Syr Jeremy Beecham o Gyflwyno Gwasanaethau Lleol yng Nghymru

**Creu'r Cysylltiadau** – y polisi ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n amlinellu gweledigaeth LlCC am Gymru ffyniannus, gynaliadwy, ddwyieithog, iachach sydd wedi'i haddysgu'n well.

**Cymorth** – ffrwd gyllid LlCC a weinyddir trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol ym mhob awdurdod lleol. Ei bwriad yw cefnogi rhwydwaith o gymorth targedig ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Dangos Llwyddiant (**www.demonstratingsuccess.co.uk) – dull newydd o fesur cynnydd a chanlyniadau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae wedi'i seilio ar gydnabyddiaeth bod pobl ifanc yn cyflawni llawer mwy trwy eu hymglymiad â rhaglenni a pholisïau nag a fesurir ar hyn o bryd.

**Every Child Matters** – dull ar gyfer lles plant a phobl ifanc yn Lloegr. Mae sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant yn cydweithio mewn ffyrdd newydd, yn rhannu gwybodaeth ac yn gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed a'u helpu i gyflawni'r hyn y maent ei eisiau mewn bywyd. Amlinellir y dull Cymreig yn y ddogfen 'Plant a Phobl Ifanc; Hawliau i Weithredu'.

**Gwaith ieuenctid ar wahân** – mae'n rhydd o gyfyngiadau gwaith mewn canolfannau. Ei nod yw datblygu cyfleoedd dysgu gyda'r rheiny nad ydynt yn defnyddio neu sy'n methu cael mynediad at ddarpariaeth ieuenctid arall.

**Gwasanaethau cymorth ieuenctid** – partneriaethau lleol o sefydliadau gwirfoddol a statudol sy'n cyflwyno gwasanaethau i bobl ifanc i gefnogi'r agenda Ymestyn Hawliau

**Maytas** – SGR addasadwy a ddatblygwyd gan Tribal Group. Mae wedi'i gynllunio ar gyfer dysgu yn y gwaith ond gellir ei addasu yn ôl anghenion gwahanol ddarparwyr.

**Medrau meddal** – y clwstwr o rinweddau personoliaeth, doniau cymdeithasol, cyfathrebu, iaith, arferion personol, bod yn gyfeillgar ac optimistiaeth sy'n ychwanegu at fedrau caled sy'n ofynion technegol swydd

**SIMS** – SGR wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer ysgolion i reoli'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud y penderfyniadau cywir am ddysgu disgyblion

**Y Strategaeth Genedlaethol Gwasanaethau Ieuenctid ar gyfer Cymru** – strategaeth Cymru ar gyfer gwasanaethau ieuenctid. Mae'n barhad o'r polisïau a'r pryderon a amlinellir yn 'Ymestyn Hawliau'.

**Ymestyn Hawliau** – y polisi ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru. Mae'n cynnwys yr holl wasanaethau, cymorth a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, ble bynnag maent yn digwydd, pwy bynnag sy'n eu cyflwyno a ble bynnag y mae'r cyllid yn dechrau. Mae'n diffinio 10 hawl sylfaenol pobl ifanc yng Nghymru.

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Stephen Lamb AY | Arolygydd Cofnodol |
| Angharad Reed AEM | Arolygydd Tîm |
| Liam Kealy AEM | Arolygydd Tîm |

Mae'r gwaith cylch gwaith hwn yn cefnogi gweledigaeth a gwerthoedd Estyn:

- goresgyn rhwystrau rhag gwella ac anelu at welliant parhaus;
- ymgynghori'n eang â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan hyrwyddo a lledaenu arfer orau a dylanwadu ar lunio polisïau;
- cyfrannu at godi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a chyngor; a
- rhoi cyngor penodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi ei hymrwymiad i wella addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn barhaus.

**Crynodeb o'r dystiolaeth bresennol / gwaith a gwblhawyd eisoes**

Gwnaed gwaith cyfyngedig yn y maes hwn er bod rhai cyfeiriadau achlysurol at SGR mewn adroddiadau arolygu GCI.